Annwyl Bethan

Mae nifer o gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus drwy Lywodraeth Cymru yn cadw'r wybodaeth mae nhw'n ei gynhyrchu ee ffotograffau, ymchwil, ar drwydded caeedig, yn hytrach nag ar drwydded agored.

Er enghraifft, mae CADW yn datgan fod yn rhaid iddynt godi am y miliynnau o ffotograffau sydd ganddynt, a'u gwerthu i'r cyhoedd yn hytrach na dilyn esiampl Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan eu rhoi am ddim, ar drwydded agored. Mewn ateb i FoIR gen i tua 4 mlynedd yn ol, datgelodd Cadw fod eu hincwm y flwyddyn oddeutu £1,000, heb gymryd costau chwilio am y ffotograff, ei sganio, post ayb i gyfri. pe bai'r costau hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth, yna mae'nt yn gwneud colled.

Nid yw Llywodraeth Cymru, felly, yn cael y 'gwerth am arian' gorau; nid yw'r trethdalwr. Mae rhyddhau gwybodaeth fel ffotograffau a thestun yn medru creu elw i fusnesau sy'n defnyddio'r cynnyrch yma, ac mae ffotograffau o gestyll, cromlechi ayb hefyd yn gwerthu Cymru i weddill y byd mewn modd dihafal. Er enghraifft, gall Wasg y Lolfa gymryd cant neu ddau neu fwy o'n lluniau ar Gomin Wicimedia, a'u cyhoeddi mewn llyfr; Comin, gyda llaw yw'r casgliad mwyaf o ffotograffau drwy'r byd.

Holais Dafydd Elis-Thomas yn ddiweddar a fyddai'n bosib i Lywodraeth Cymru gynnwys amod yn y taliadau i'r cyrff yma: y cant eu hariannu <u>ar yr amod</u> fod yr hyn mae'n nhw'n ei gynhyrchu yn cae ei roi ar drwydded agored. Ei ateb oedd mai mater i'r cyrff hynny oedd hyn, ac nid i Lywodraeth Cymru. Anghytunaf. Byddai pobl Cymru'n manteisio'n enbyd yn addysgol ac yn ariannol o drwydded agored. Mae LlGC wedi uchlwytho dros 13,000 o'u ffotograffau a phaentiadau gorau i Comin, fel y gallwn ni (a gweisg, busnesau ayb) eu defnyddio ar Wicipedia. Mae Amgueddfa Cymru wedi uwchlwytho cyfanswm o ddim.

Atodaf rai pwyntiau am yr Wicipedia Cymraeg i'ch sylw caredig. Byddai agor y trwyddedau a nodais uchod yn golygu y gallem godi nifer yr erthyglau dros nos i tua 300,000. Mae'r arian sy'n dod o Ewrop (a'r un fydd y meini prawf yn dilyn brecsit) a'r arian a roddir gan Google ayb i gyfieithu prosiectau i'r Gymraeg yn ddibynnol ar un peth: y nifer o erthyglau ar Wicipedia'r iaith honno. Felly, er mwyn y Gymraeg, mae angen agor y trwyddedau hyn ar unwaith.

Carwn ofyn i chi am **femorandwm** neu ymchwil i ba gyrff sy'n defnyddio trwyddedau agored (ee Comin Creu / Creative Commons, OGL) a pha gyrff sy'n defnyddio trwyddedau caeedig (ee Hawlfraint Coron Lloegr).

Carwn hefyd gyflwyno ei hachos i'r **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**.

Diolch o galon.

Cofion cynnes